# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 21.10.09

**Presennol:** Y Cynghorwyr W. Tudor Owen (Cadeirydd); Robert Anderson; Peter Read

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb); Geraint Edwards (Cyfreithiwr, Cyngor Gwynedd); Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriad:** Y Cyng. J.R.Jones

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:</u>**

**Yn cynrychioli'r Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru); Rhingyll Bill Coppack (Swyddfa'r Heddlu, Bangor); Manon Owen (Arolygydd Gweithredol).

**Yn cynrychioli Bangor Blues**: Mr Richard Williams (Perchennog tafarn Bangor Blues); Mr Charles Hughes (Goruchwyliwr Dynodedig yr Eiddo); Mr James Parry (Cyfreithiwr y cwmni)

**Ymgynghorwyr:** Y Cyng. Dewi Llewelyn (Aelod Lleol); Mr Gwyn Hughes (Clerc, Cyngor Dinas Bangor)

.

## 1. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO TAFARN BANGOR BLUES SPORTS BAR, 206, STRYD FAWR, BANGOR

Ar ddechrau'r cyfarfod, adroddodd cyfreithiwr Bangor Blues i fethu â gweithio'r DVD a dderbyniwyd gan yr Heddlu o dâp teledu cylch cyfyng sydd wedi ei leoli nepell o'r eiddo, gan wneud cais am gael gweld y tâp cyn dechrau'r cyfarfod. Wedi ymgynghori, adroddwyd y byddai pawb yn cael gweld y tâp yn ystod y cyfarfod, ac yna y byddai cyfle i gyfreithiwr y cwmni drafod gyda'i gleient a phenderfynu ai mynd ymlaen â'r cyfarfod ai peidio.

Caewyd y cyfarfod i'r cyhoedd a'r wasg yn ystod dangos tâp o deledu cylch cyfyng sydd wedi ei leoli yn Stryd Fawr, Bangor, yn agos i Bangor Blues. Yr oedd y dyddiad ar y tâp yn dangos 25 Gorffennaf, 2009, a'r amser rhwng 16.30 a 17.15. Yr oedd nifer o gwsmeriaid yn sefyll tu allan i'r eiddo ar y Stryd Fawr, rhai gyda photeli diod yn eu llaw. Gwelwyd nifer o achosion o'r cwsmeriaid hyn yn ffugio ymladd a neidio o gwmpas yn llwybr siopwyr oedd yn cerdded heibio, gyda un achlysur arbennig pan fu bron i wraig yn gwthio pram gael ei tharo drosodd. Gwelwyd un cwsmer yn taflu potel ddiod i fyny i'r awyr, gyda phlentyn oddeutu pum mlwydd oed yn sefyll gerllaw, yn amlwg yng ngofal un o'r cwsmeriaid.

Wedi dangos y tâp, cytunodd y cyfreithiwr gyda'i gleient i fynd ymlaen â'r gwrandawiad.

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ar gais yr Heddlu i adolygu Trwydded Eiddo tafarn Bangor Blues Sports Bar, 206, Stryd Fawr, Bangor yn gofyn am ddiddymu'r drwydded o ystyried nifer o achosion a ddaeth i sylw'r Heddlu dros y cyfnod ers mis Mai eleni pan ail-agorwyd yr eiddo yn dilyn gwaharddiad cynharach gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu. Oni chaniateir ddiddymu'r drwydded, argymhellir ystyried cyfnod o waharddiad gydag amodau.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

i) Cyflwynwyd y cais gan swyddog yr Heddlu.

ii) Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd yr Heddlu;

ii) Cafodd deilydd y drwydded a'i gynrychiolydd gyfle i ymateb i'r sylwadau;

iii) Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded a'r cynrychiolydd

iv) Cafodd yr Ymgeisydd a deilydd y drwydded a'i gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Wrth ymhelaethu ar fanylion y cais tynnodd y Rhingyll Bill Coppack sylw at nifer o ddigwyddiadau a gymerodd le yn yr eiddo ers i'r dafarn ail-agor yn ystod mis Mai yn dilyn atal y drwydded am chwe wythnos megis –

- gwerthu alcohol i rai dan oed, gan fethu tri prawf o hyn a drefnwyd gan yr Heddlu;
- tystiolaeth o gyffuriau yn y toiledau,
- gwerthu alcohol heb fod Goruchwyliwr Dynodedig yn yr eiddo;
- gadael i gwsmeriaid gario poteli o ddiod allan o'r eiddo;
- diffyg rheoli ymddygiad cwsmeriaid
- methiant i gyflwyno tapiau cc ar gais yr Heddlu

Cafwyd gwybodaeth hefyd am achos blaenorol o atal trwydded yr eiddo am chwe wythnos o 7 Ebrill, 2009, oherwydd nifer o achosion tebyg a ddaeth i sylw'r Heddlu cyn y dyddiad hwn. Yn dilyn ail-agor yr eiddo ar 19 Mai, cynhaliodd yr Heddlu ymgyrch prawf prynu ar 4 Gorffennaf a 15 Awst a methwyd y ddau. Adroddwyd i swyddogion yr Heddlu, wrth edrych ar y tapiau o'r teledu cylch-cyfyng cyfagos, adnabod un person dan oed yn dod allan o'r adeilad ar 18 Awst, ac ar 4 Medi rhybuddiwyd y sawl oedd tu ôl i'r bar i beidio â gwerthu alcohol oherwydd nad oedd Goruchwyliwr Dynodedig yn bresennol yn yr eiddo.

Ar Ddydd Sul, 16 Awst, cymerodd swyddogion yr Heddlu swabiau *itemiser* yn yr adeilad a chafwyd tystiolaeth bod cocên wedi bod yn bresennol yn ddiweddar.

Wrth gyfeirio at dystiolaeth y tâp a ddangoswyd yn y cyfarfod, tynnodd yr Heddlu sylw at y nifer o gwsmeriaid oedd yn sefyll ar y stryd gyda photel yn eu llaw, gan nodi bod hyn yn torri un o'r amodau gytunwyd iddynt yn dilyn ail-agor yr eiddo mis Mai. Nodwyd bod yr Heddlu yn adnabod dau berson oedd wedi eu gwahardd dan delerau'r 'Pubwatch' lleol, gan dorri amod pellach, a bod ymddygiad cyffredinol y cwsmeriaid a recordiwyd yn dod dan y categori 'ymddygiad afreolus' ('disorderly behaviour') ac yn hollol annerbynniol mewn man cyhoeddus.

Cyfeiriwyd hefyd at y mater o fethu cysylltu â Goruchwyliwr Dynodedig yr Eiddo er gwaethaf sawl ymdrech i gael cyfarfod ag ef; fel yr adroddwyd gan sawl person yn yr eiddo i Mr Charles Hughes fod wedi gadael a rhoi'r gorau i'r swydd; ac fel y cafwyd enw dau berson arall yr honnwyd iddynt fod yn y broses o gofrestru fel goruchwyliwr newydd.

Adroddodd y rhingyll ar ymdrechion yr Heddlu i geisio darparu awyrgylch ddiogel a deniadol ar Stryd Fawr Bangor, ac mai barn yr Heddlu yw fod ymddygiad cwsmeriaid y Bangor Blues yn niweidiol i'r bwriad hwnnw. Oherwydd bod cynnifer o achosion o fethu cadw at yr amodau a osodwyd mor ddiweddar wedi'r cyfnod o atal y drwydded, argymhelliad yr Heddlu yw diddymymu trwydded y Bangor Blues.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau o'r Is-bwyllgor, nodwyd:

- bod y GED Mr Charles Hughes, wedi dychwelyd bellach
- y bu achos pellach o ddifrod troseddol ers cyflwyno'r cais, sef bod 3 o lafnau ifanc wedi taflu 'dumb-bell' oddi ar do fflat tu cefn i'r eiddo ar 13 Hydref eleni gan achosi difrod i do cyfagos

- wedi i'r Heddlu hysbysu'r staff fod cwsmer dan oed yn yfed yn yr eiddo, na weithredwyd ar y wybodaeth, a bod y cwsmer dan sylw yn dal yno pan ddychwelodd swyddogion yr Heddlu awr yn ddiweddarach
- bod cyfrifoldeb ar y GED i atal trosedd ac anrhefn ymysg cwsmeriaid
- bod aelodau o'r staff ynghanol y criw oedd tu allan i'r dafarn yn yfed, ac felly'n dyst i ymddygiad y cwsmeriaid

Cafodd perchennog yr eiddo gyfle i ymateb i sylwadau'r Heddlu, ac adroddodd y cyfreithiwr ar ei ran:

- ei fod yn dadlau gyda'r modd y cyflawnwyd y profion ar gyfer gwerthu i rai dan oed, gan honni y dylai fod lluniau ar gael i brofi'r cyhuddiad, yn ôl canllawiau LACORS.
- na chyflwynwyd dogfennau Pubwatch, sy'n rhestru'r gofynion a'r disgwyliadau, i berchennog y Bangor Blues
- ei bod yn anodd profi bod y rhai ddangosir ar y tâp tu allan i'r eiddo yn gwsmeriaid
- nad oes gwaharddiad i'r cyhoedd ysmygu ar y stryd
- bod Mr Charles Hughes wedi bod yn bresennol trwy gydol yr amser, ond na chafodd gais i ddod i gyfarfod â'r Heddlu
- na ddylid dal yr eiddo'n gyfrifol am yr hyn ddigwyddodd ar y to fflat, gan nad yw'n safle ysmygu swyddogol
- nad yw presenoldeb cyffuriau'n dystiolaeth o ddelio ar y safle
- na ddylid dal ymddygiad cwsmeriaid y Bangor Blues yn gyfrifol am gau busnesau yn Stryd Fawr, Bangor
- na ellir profi bod y poteli a ddangosir ym meddiant yr unigolion ar y tâp cc wedi eu prynu yn Bangor Blues
- nad oedd yr un person a nodwyd iddi fod yn aelod o'r staff ar ddyletswydd pan dynnwyd y ffilm

Wrth ymateb i'r sylwadau uchod, nododd swyddogion yr Heddlu:

- mai canllawiau yn unig yw rhai LACORS, a'i fod yn gwarchod hawliau'r bobl ifanc trwy wrthod darparu lluniau ohonynt
- bod y tâp yn dangos sawl cwsmer yn dod allan o'r eiddo gyda photel yn eu llaw
- na chyflwynwyd dogfennau Pubwatch eto oherwydd gofynion diogelu data
- bod sawl person wedi tystio i Mr Charles Hughes ddychwelyd i Lerpwl, ac na ddaeth i gyfarfod â'r Heddlu er iddynt ddisgwyl ar un achlysur am awr ar y safle
- bod yr eiddo wedi methu chwe prawf o werthu i rai dan oed, ac heb ofyn am dystiolaeth oed dan y cynllun Sialens 21
- bod Stryd Fawr, Bangor yn ranbarth di-alcohol ac felly ni ddylai unrhyw berson fod yn yfed alcohol ar y stryd
- bod yr eiddo wedi methu cadw at yr amodau a gytunwyd yn y gwrandawiad diwethaf, a'u bod o ganlyniad yn methu â chyrraedd y pedwar egwyddor sydd yn sylfaenol i amcanion y Ddeddf Trwyddedu

Derbynwyd llythyr gan bum person yn ymateb i'r ymgynghoriad ynglŷn â'r cais, i gyd yn cefnogi agymhelliad yr Heddlu; tri ohonynt yn berchnogion busnesau lleol, a chafodd y ddau berson oedd yn bresennol y cyfle i gefnogi eu sylwadau.

Adroddodd yr Aelod Lleol, Y Cynghorydd Dewi Llewelyn, iddo dderbyn cwyn yn ystod mis Awst gan y Fforwm Busnes lleol am yr ymddygiad gwrth-gymdeithasol oedd yn digwydd tu allan i adeilad y Bangor Blues, a mynegodd siom o dderbyn y gwyn o ystyried yr achos blaenorol a fu. Nododd bod y cyfnod presennol yn un anodd i gynnal busnesau yn llwyddiannus, a bod ymgyrch dan yr enw Balchder Bangor yn ymdrechu i wella ansawdd bywyd trigolion lleol a pherchnogion busnes. Mewn ymateb i gwestiwn, cafodd sicrwydd bod hawl gan aelodau'r Is-bwyllgor i ddiddymu trwydded yr eiddo yn barhaol, a mynegodd ei gefnogaeth i gam o'r fath yn wyneb y dystiolaeth a gyflwynwyd.

Mynegodd Clerc Cyngor Dinas Bangor, Mr Gwyn Hughes, ei bryder ar ran aelodau'r Cyngor am ymddygiad cwsmeriaid y Bangor Blues, gan gadarnhau iddo yntau dderbyn nifer o gwynion gan drigolion lleol a pherchnogion busnes y Stryd Fawr. Adroddodd i rai o'r perchnogion hynny geisio trafod y sefyllfa gyda staff y dafarn, gan nodi'n benodol ymddygiad annerbynniol, swn gormodol, yfed ar y stryd a rhegi, a chael ymateb negyddol oedd yn eithaf bygythiol. Mae atal niwsans cyhoeddus a throsedd ac anrhefn yn amcan bwysig gan Balchder Bangor a barn gref aelodau Cyngor y Ddinas yw fod y sefyllfa tu allan i Bangor Blues yn tanseilio'r egwyddor hwnnw, ac yn cefnogi argymhelliad yr Heddlu i ddiddymu'r drwydded.

Wrth gloriannu ei sylwadau nododd cyfreithiwr ar ran perchennog Bangor Blues:

- **a)** nad oedd yn derbyn y cyhuddiad o werthu alcohol i rai dan oed yn absenoldeb tystiolaeth
- **b)** nad oedd tystiolaeth tâp a dynnwyd ar un diwrnod yn unig yn ddigonol
- **c)** na ellir profi bod y rhai oedd ar y ffilm yn gwsmeriaid i Bangor Blues
- **d)** na ellir rhoi bai ar un eiddo am fethiant busnesau lleol

Gadawodd y tenantiaid, swyddogion yr Heddlu a'r Rheolwr Trwyddedu yr ystafell tra'r oedd aelodau'r Is-bwyllgor yn trafod y cais.

Wrth ddod i benderfyniad, rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth i'r materion canlynol –

a) Y nifer o achlysuron a gofnodwyd gan Heddlu Gogledd Cymru, ac yn enwedig y rhai yn berthnasol i werthu alcohol i rai dan oed.

b) Y ffaith bod digwyddiadau yn parhau i gymryd lle er gwaethaf bod gwrandawiad cynharach wedi tynnu sylw at y problemau, a bod y prchennog yn methu cadw at yr amodau a gytunwyd

c) Y ffaith bod yr ymgynghorai yn cefnogi'r Heddlu, gan siarad ar ran nifer o drigolion lleol a pherchnogion busnesau cyfagos

ch) Pa un ai diddymu'r drwydded neu ataliad tros dro fyddai'r ffordd orau i oresgyn y problemau

d) Eithriad yw i'r Heddlu wneud cais am ddiddymu Trwydded Eiddo, onibai bod achos cryf dros argymell hynny

dd) Mae'n amlwg bod problemau dwys yn bodoli yn rheolaeth yr eiddo ac o ganlyniad bod yr eiddo'n methu cynnal egwyddorion y Ddeddf ar bob achos.

**PENDERFYNWYD diddymu Trwydded Eiddo y Bangor Blues Sports Bar**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb yr anfonir llythyr i bawb o fewn pum diwrnod gwaith yn cadarnhau dyfarniad yr Is-bwyllgor, gan hysbysu pawb o'r hawl i apelio yn erbyn y dyfarniad, ac y byddai penderfyniad yr Is-bwyllgor yn dod i rym yn dilyn y cyfnod pan ganiateir apêl, neu os bydd apêl, pan fydd yr apêl honno wedi ei gwaredu.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 1.30pm